
# Tymor y Gwanwyn (ii) 2018 — Blwyddyn 1 a 2 Mrs Williams a Mrs Rh. Hiley

YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR

## Thema'r hanner tymor yw: Carnifal!
## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!



**Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**

- Creu cornel chwarae 'Siop Lluniau Llon' a mwynhau gwisgo i fyny, trafod arian a bod yn ffotograffwyr proffesiynol!
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol.
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Datblygiad Creadigol**

- Datblygu sgiliau colaj a mwynhau astudio ac efelychu gwaith artist enwog.
- Dysgu caneuon newydd, gwrando ar gerddoriaeth garnifal a chwarae patrymau ar offerynnau taro.
- Datblygu ein sgiliau perfformio.

**Datblygiad Mathemategol**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio a thynnu i ffwrdd a chyfri mewn camau.
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur pwysau a datblygu ein sgiliau datrys problem.
- Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener. Rhaid i ni ei ddychwelyd ar ddydd Llun. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Blwyddyn 2)

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBYMCWilliams**
**@YGGBYMROwen**

**Addysg Grefyddol:**

Dysgu am hanes Dewi Sant, Y Pasg ac un ŵyl gefyddol arall.

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**
Cyfathrebu ein syniadau trwy gyfrwng amrywiol ddulliau, gan gynnwys cyfansoddi cerddoriaeth.

Dysgu sut i ddanfon cyfathrebiad ar-lein syml.

**Datblygiad Corfforol**

- Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd
- Datblygu sgiliau dawnsio creadigol.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

Mwynhau darganfod ynglŷn â sut y mae pobl eraill mewn gwahanol lefydd yn y byd yn byw.

Datblygu dealltwriaeth o sut y gallwn fod yn ffrind da a gwneud gwahaniaeth i eraill.

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Dysgu am ystod o garnifalau a dathliadau o gwmpas y byd—dewis un i'w astudio mewn mwy o fanylder
- Parhau i ddysgu am leoliadau gwledydd o gwmpas y byd.